# Ymdrin a chyflwyno meirch o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thrin a chyflwyno meirch i gleientiaid, o dan oruchwyliaeth. Mae'n cynnwys pryfocio, cyplu a chyflwyno i gleientiaid, o dan oruchwyliaeth.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. trin meirch ar gyfer gweithdrefnau hylendid arferol o dan oruchwyliaeth
3. cymryd y rhagofalon priodol i atal clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
4. cyflwyno'r pryfociwr i'r gaseg er mwyn sefydlu derbynioldeb ar gyfer cyplu
5. cyflwyno'r march i'r gaseg ar gyfer cyplu, yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw broblemau yn trin y march neu gyplu
7. cyflwyno'r march i gleientiaid i gael ei archwilio
8. sicrhau bod lefelau priodol o hylendid a bioddiogelwch yn cael eu cynnal
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. goblygiadau gorddefnyddio meirch
3. y rhagofalon diogelwch wrth drin meirch
4. seicoleg ac ymddygiad meirch
5. y dulliau gwahanol o bryfocio
6. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
7. yr offer i'w ddefnyddio ar feirch
8. y rheoliadau'n ymwneud â swabio
9. clefydau gwenerol a'u symptomau
10. y codau ymarfer perthnasol ar gyfer atal a rheoli clefydau gwenerol a sut i hysbysu'r awdurdod perthnasol
11. y cofnodion sydd eu hangen at ddibenion rheoli a deddfwriaethol
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Trin pryfociwr sy’n ymddwyn yn dda a/neu farch ar gyfer cyplu i gael ei archwilio.

LANEq333

Ymdrin a chyflwyno meirch o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq333 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; march; gofal |